IS-BWYLLGOR DIOGELU'R CYHOEDD

DYDD MERCHER, 5 EBRILL 2023

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Michael (Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Gunter a/ac Jenkins |

1 : EITHRIO'R CYHOEDD

Mae'r eitem ganlynol yn gyfrinachol ac wedi'i heithrio rhag cael ei chyhoeddi gan ei bod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig o'r disgrifiad a geir ym mharagraff 14 Rhan 4 a pharagraff 21 Rhan 5 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972. Gall y cyhoedd gael eu heithrio o'r cyfarfod ar gais y Pwyllgor yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn ystod trafodaethau ar yr eitem hon.

2 : MATERION CERBYDAU HACNI/CERBYDAU LLOGI PREIFAT

PENDERFYNWYD - Y dylid ymdrin â'r materion canlynol fel y nodir:

(1) Achos 1

Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried adroddiad ar yrrwr oedd wedi derbyn 6 phwynt cosb am drosedd foduro IN10 - gyrru heb yswiriant. Datganwyd y drosedd pan wnaeth y gyrrwr gais i adnewyddu ei drwydded ac nid ar adeg y drosedd.

Siaradodd y gyrrwr gerbron yr is-bwyllgor. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau fod y gyrrwr wedi'i drwyddedu ar gyfer hurio preifat. Dywedodd y gyrrwr fod 2 deithiwr wedi cysylltu ag ef a'u cludo i Dal-y-bont heb gael archeb ymlaen llaw. Swyddogion Gorfodi'r Cyngor oedd y teithwyr ac fe gafodd ei erlyn yn y llys am y drosedd.

Fe wnaeth y gyrrwr dderbyn ei fod wedi gwneud camgymeriad ac ymddiheuro. Erbyn hyn roedd yn ymwybodol nad oedd wedi yswirio i gludo'r teithwyr ac na fyddai'n cymryd taith o'r fath yn y dyfodol. Roedd wedi bod yn gyrru am 20 mlynedd heb i unrhyw broblemau gael eu hadrodd.

PENDERFYNWYD – Bod y gyrrwr yn derbyn rhybudd ysgrifenedig a bod yn ofynnol iddo gwblhau'r cymhwyster gyrru proffesiynol SQA o fewn cyfnod o 3 mis.

(2) Achos 2

Gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried adroddiad ar yrrwr a oedd wedi cronni 27 pwynt cosb ar ei drwydded yrru am 7 trosedd goryrru. Ni chafodd y troseddau eu hadrodd i'r awdurdod adeg y drosedd.

Cafodd yr aelodau wybod bod y troseddau wedi digwydd yn

ystod cyfnod clo Covid-19 pan nad oedd gwasanaeth ambiwlans ar gael. Roedd y gyrrwr wedi symud ei deulu o'r Rhath i Bontprennau ac roedd yr holl droseddau wedi digwydd ar yr un camera cyflymder. Dywedodd y gyrrwr fod ei wraig yn dioddef o broblemau iechyd meddwl a chyflwr ar y galon. Roedd yn cludo ei wraig i'r ysbyty adeg y troseddau ac roedd yn defnyddio'r car teuluol. Nid oedd yn gweithio nac yn cludo teithwyr ar y pryd.

Dywedodd y gyrrwr ei fod wedi cael ei erlyn yn y llys am y troseddau. Fodd bynnag, cymerodd y barnwr i ystyriaeth yr amgylchiadau lliniaru ac roedd yn gallu parhau i yrru. Ers i'r troseddau ddigwydd mae'n fwy gwyliadwrus ac yn ystyried diogelwch ei deithwyr.

Fe ymddiheurodd y gyrrwr am beidio â rhoi gwybod am y troseddau ar y pryd. Dywedodd nad oedd yn ymwybodol bod angen iddo wneud hynny.

PENDERFYNWYD - rhoi rhybudd ysgrifenedig i'r gyrrwr am droseddau gyrru a pheidio ag adrodd.

(3) Achos 3

PENDERFYNWYD - Cymeradwyo cais am Drwydded Gyrrwr Cerbyd Hacni/Hurio Preifat.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.00 am.